**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD MAWRTH, 20FED HYDREF, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**
**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**
**01286 679 878**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 12 Hydref 2020)

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

### Aelodaeth (15)

### Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Edwards | Simon Glyn |
| Berwyn Parry Jones | Huw Gruffydd Wyn Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gareth A. Roberts |
| Gruffydd Williams | Gareth Tudor Morris Jones |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eric M. Jones | Anne Lloyd Jones |
| I. Dilwyn Lloyd | Eirwyn Williams |

### Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Owain Williams

### Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Louise Hughes

### Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## TREFN SIARAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae’r Cyngor wedi penderfynu rhoddi’r hawl i 3ydd parti siarad ar geisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae’r daflen hon yn amlinellu’r trefniadau gweithredol arferol ar gyfer siarad yn y pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio ar y cais cynllunio yn cynnwys argymhelliad. | |
| 2. | Os oes cais wedi ei dderbyn gan 3ydd parti i siarad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr ymlaen | |
| 3. | Gwrthwynebydd, neu gynrychiolydd o’r gwrthwynebwyr yn cael annerch y pwyllgor | 3 munud |
| 4. | Ymgeisydd, gynrychiolydd yr ymgeisydd(wyr) neu Asiant yn cael annerch y pwyllgor | 3 munud |
| 5. | Aelod(au) Lleol yn cael annerch y pwyllgor | 10 munud |
| 6. | Cadeirydd y pwyllgor yn gofyn am gynigydd ac eilydd i’r cais cynllunio | |
| 7. | Y pwyllgor yn trafod y cais cynllunio. | |

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2020 / 21

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is Gadeirydd ar gyfer 2020 / 21

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ac i nodi materion protocol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 7 - 19

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y10fed o Fedi 2020 ac ar y 24ain o Fedi 2020 fel rhai cywir

## 7. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd.

### 7.1. CAIS RHIF C19/1028/03/LL GWESTY WYNNES ARMS, FFORDD MANOD, MANOD, BLAENAU FFESTINIOG 20 - 47

Cais ar gyfer addasu tŷ tafarn yn 5 fflat ynghyd â chodi estyniad cefn a llefydd parcio

AELOD LLEOL: Cynghorydd Linda Ann Jones

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol

### 7.2. CAIS RHIF C19/1197/02/LL CANOLFAN GREFFTAU CORRIS, CORRIS UCHAF, GWYNEDD 48 - 67

Creu safle carafanau teithiol ar gyfer 11 uned teithiol ynghyd a gosod bloc

toiledau a tirlunio.

AELOD LLEOL: Cynghorydd John Pughe Roberts

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol

**7.3. CAIS RHIF C20/0190/19/AC SEIONT BRICKWORKS, SEIONT WORKS FFORDD FELIN SEIONT, CAERNARFON** 68 - 88

Cais ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r ffordd osgoi arfaethedig, A487 Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys;

- Defnydd tir fel estyniad i compownd y safle bresennol a darparu sied cynnal a chadw, adeiladau swyddfa, cyfleusterau lles a maes parcio, storfa tanwydd, tanc storio carthffosiaeth, cyfleuster sypynnu concrid symudol a sypynnu asffalt ac adeiladu trac cludiant (defnydd dros dro),
- Adeiladu ffordd cludiant newydd ar ffin ogleddol y chwarel bresennol gyda chysylltiad dros dro i lwybr y ffordd osgoi arfaethedig, A487 Caernarfon i Bontnewydd, yn ystod y cyfnod adeiladu,
- Parhau i gloddio am fwynau, symud deunydd o ddyddodion gweithio mwynau a phentwr stoc o ddeunyddiau sy'n bodoli eisoes,
- Darparu llawr caled a lleoli offer a pheiriannau ar gyfer prosesu a sgrinio deunyddiau,
- Gwaredu deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer gwaith peirianyddol/adfer yn ystod y tymor hir.

(Cais o dan Adran 73 i amrywio Amod 3 ar ganiatâd cynllunio C17/0011/19/MW i gyrraedd y lefelau daear y cytunwyd arnynt yng nghynllun adfer rhif. 3030/16, ddeunyddiau cloddio sydd dros ben i ofynion prosiect ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd yn ogystal â deunyddiau a gloddiwyd o ffynonellau eraill, gael eu gwaredu ar y safle yn unol â thrwydded CNC)

AELOD LLEOL: Cynghorydd Peter Garlick

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol

**7.4. CAIS RHIF C19/1072/11/LL TIR ODDI AR PEN Y FFRIDD ROAD, PEN Y FFRIDD ROAD, PENRHOSGARNEDD, BANGOR** 89 - 132

Datblygiad preswyl o 30 uned (i gynnwys 12 uned fforddiadwy) ynghyd a isadeiledd, llecynnau parcio, mynedfa, llwybrau a llecyn agored.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Gareth A Roberts

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol